**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

Mr C. B. Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Rhif ffôn (01443) 424098 – J. Nicholls

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Trwyddedu**, yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach**
**Brynhawn Mawrth, 23 Ionawr 2018 am 5pm**

**ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN TRWYDDEDU, TŶ ELÁI, DWYRAIN DINAS ISAF, TREWILIAM, CF40 1NY, O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. DYLAI UNRHYW UN SY'N DYMUNO ANNERCH Y PWYLLGOR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR 01443 424102.**

## AGENDA

## 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad.

(**Noder:**
**1.** Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
**2.** Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.)

## 2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**Tudalennau**

**<u>COFNODION</u>**

**3.** Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 5 o Rhagfyr 2017. **1-4**

**<u>ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD</u>**

**4.** Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod :- **5-24**

**Trwyddedu Anifeiliaid**
**Tyllu'r Croen a Thatŵo**
**Trwydded Casglwyr Metal Sgrap Teithiol**
**Trwydded Safle Metal Sgrap**

**5. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:-**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

**<u>ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG</u>**

**6.** Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 24/11/17-10/01/18. **25-30**

**7.** Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod **31-44**

(i) Trwyddedau gyrru ar y cyd – Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat
(ii) Trwyddedau Cerbyd Hacni
(iii) Trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat
(iv) Trwyddedau Gweithredwyr Hurio Preifat

**Aelodau o'r Pwyllgor:-**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
(Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A.S. Fox a D. Williams yn ôl eu trefn)

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S.A. Bradwick, A.Cox, P. Howe,,
L. Jones, W. Lewis, S. Morgans, S. Powderhill, E. Webster, a T. Williams

Cynghorydd Bwrdeistref Sirol, R. Lewis (Dirprwy Aelod o Gabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ar faterion Ffyniant a Lles) – er gwybodaeth.

**28 Tachwedd 2017**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**Cofnodion** o'r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach ddydd Mawrth 5 Rhagfyr 2017 am 5.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. S. Fox – yn cadeirio

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol**

| | |
|---|---|
| L. Jones | S. Powderhill |
| W. Lewis | E. Webster |
| S. Morgans | D. Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol:**

Mr P. J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Mr P. Nicholls – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Ymgyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymuned a Phlant
Mr G. Black – Rheolwr Materion Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr R. Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd

## 43. SYLWADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, PC Whittle a Ms Rhian Hope, Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor.

## 44. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. A. Bradwick, A. Cox, P. Howe, a T. Williams.

## 45. DATGAN BUDDIANT

**PENDERFYNWYD** – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant personol ynglŷn â'r agenda.

## 46. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD –** I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**47. COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu, a gafodd ei gynnal ar 10 Hydref 2017, yn rhai cywir.

**48. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 25 Medi 2017 tan 19 Tachwedd 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

**49. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD –** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth gynnal busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

**50. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI / CERBYD HURIO PREIFAT – CEISIADAU AC ADNEWYDDU**

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd y manylion am bedwar cais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat, ac roedd un cais ger bron y Pwyllgor am adolygu Trwydded yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

(Gyda chaniatâd y Cadeirydd, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei drafod mewn trefn wahanol).

1. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SA o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Esboniodd y person arall a oedd yng nghwmni'r ymgeisydd mai hi oedd merch yr ymgeisydd.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod cais oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

2. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr MA o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau iddyn nhw gael trafod ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat. Roedd Mr MA o Gaerdydd yng nghwmni'i gynrychiolydd.

Ar ôl trafod yr adroddiad ac ystyried barn Heddlu De Cymru, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo cais Mr MA o Gaerdydd. Mae hyn yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol; â rhybudd am weithgarwch yn y dyfodol.

(**Noder:** Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

3. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr MA o Gaerdydd ei groesawu gan yr Aelodau iddyn nhw gael trafod ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr wybodaeth ger eu bron, yn ogystal â'r wybodaeth ategol a gafodd ei rhoi gan y Heddlu De Cymru, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais gan Mr MA o Gaerdydd oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

4. Cafodd Mr AA o Gaerdydd, a oedd yng nghwmni ei gefndir, ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Ychwanegodd Heddlu De Cymru wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r troseddau sy'n gysylltiedig â'r ymgeisydd. Yn dilyn trafodaeth yr wybodaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais gan Mr AA o Gaerdydd oherwydd roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor o'r farn nad oedd yr Ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

5. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd Mr MMA o Gaerdydd yn bresennol ac felly gofynnwyd i'r Aelodau ystyried datrys y mater yn ei absenoldeb. Gan ystyried y materion difrifol sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddatrys y mater yn absenoldeb y daliwr trwydded.

Cafodd y Pwyllgor gyfle i weld System Teledu Cylch Cyfyng ar fideo a chlywed llythyr a gyflwynwyd gan y daliwr trwydded ynglŷn â'r adolygiad, a gafodd ei ddarllen gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddirymu'r drwydded ar unwaith oherwydd bod Mr MMA wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

**51. CRYNODEB O FATERION GORFODI**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 29 Medi 2017 tan 23 Tachwedd 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys, a oedd wedi ei roi er gwybodaeth yn unig.

**52. CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – grynodeb o Drwyddedau a/neu Gofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaethau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 25 Medi 2017 tan 19 Tachwedd 2017 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

**53. ADRODDIAD CYFARWYDDWR GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD SY'N CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG**

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd y manylion am gais am gliriad i gael bod yn bersonél Cludiant dan Gontract ar gludiant ysgolion, gwasanaethau cymuned a chontractau cysylltiedig ar gyfer cludiant.

1) Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr CDS o Ben-y-bont ei groesawu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor iddyn nhw gael trafod ei apêl ynglŷn â Phersonél Cludiant dan Gontract.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNWYD** caniatáu'r apêl a rhoi cliriad i Mr CDS o Ben-y-bont gael bod yn Bersonél Cludiant dan Gontract; â rhybudd am weithgarwch yn y dyfodol.

(**NODER**: Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

**A.S.Fox**
Cadeirydd

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15pm.